**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**
Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 19 Hydref 2022 am 5.00 pm.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd L Addiscott | Y Cynghorydd M Ashford |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd J Cook | Y Cynghorydd A Crimmings |
| Y Cynghorydd S J Davies | Y Cynghorydd R Davis |
| Y Cynghorydd J Edwards | Y Cynghorydd E L Dunning |
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd S Emanuel |
| Y Cynghorydd S.Hickman | Y Cynghorydd B Harris |
| Y Cynghorydd W Hughes | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd G O Jones | Y Cynghorydd K Johnson |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd M Maohoub | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd N H Morgan |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd L A Tomkinson |
| Y Cynghorydd S Trask | Y Cynghorydd M Webber |
| Y Cynghorydd J Turner | Y Cynghorydd R Williams |
| Y Cynghorydd T Williams | Y Cynghorydd R Yeo |

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd P Binning |
| Y Cynghorydd J Bonetto | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd V Dunn |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd A Ellis |
| Y Cynghorydd R Evans | Y Cynghorydd D Evans |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd P Evans |
| Y Cynghorydd G Jones | Y Cynghorydd Sera Evans |
| Y Cynghorydd A Fox | Y Cynghorydd C Lisles |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd W Owen |
| Y Cynghorydd M Powell | Y Cynghorydd D Parkin |
| Y Cynghorydd S Rees | Y Cynghorydd C Preedy |
| Y Cynghorydd A O Rogers | Y Cynghorydd A Roberts |
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd J Smith |
| Y Cynghorydd B Stephens | Y Cynghorydd G L Warren |
| Y Cynghorydd G E Williams | Y Cynghorydd K Webb |
| | Y Cynghorydd D Wood |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**34 Croeso ac ymddiheuriadau am fod yn absennol**

Croesawodd y Cadeirydd y rheiny a oedd yn bresennol i gyfarfod hybrid y Cyngor a daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Barton, H Gronow, G Hopkins, K Morgan, D Owen-Jones, S Powderhill, W Treeby a D Williams.

**35 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

**36 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2022 yn rhai cywir.

**37 Cyhoeddiadau**

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

Cyhoeddodd y Llywydd fod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Rees-Jones wedi ymddiswyddo o'i rôl yn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ers y cyfarfod diwethaf, a hynny am resymau personol. Croesawodd hefyd yr Aelod newydd dros Ynys-y-bwl, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Paula Evans i'w chyfarfod Cyngor Llawn cyntaf.

Gyda thristwch mawr, cyhoeddodd y Cynghorydd A Crimmings fod y cyn-Gynghorydd John Evans wedi marw ac roedd hi wedi bod i'w angladd yn gynharach yn y dydd. Ychwanegodd mai fe oedd yr Aelod Lleol dros Orllewin Aberdâr gynt, ac yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Cwm Cynon.

Cyhoeddodd y Cynghorydd A Morgan fod y cyn-Gynghorydd Edward Hopkins hefyd wedi marw. Fe oedd yr Aelod Lleol dros Lwynypia gynt, a chyn-Faer Bwrdeistref Cwm Rhondda. Aeth Arweinydd y Cyngor ati i gynnal munud o dawelwch yn y cyfarfod er cof am y ddau gyn-Gynghorydd.

Cafwyd teyrngedau gan Arweinydd y Cyngor i Mr Chris Bradshaw a oedd ar fin ymddeol o'i swydd yn Brif Weithredwr. Hwn oedd cyfarfod olaf y Cyngor Llawn i Mr Bradshaw, a chafodd ei ganmol am ei 21 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor. Cafwyd negeseuon o ddiolch iddo oddi wrth Arweinwyr yr holl Grwpiau, a hynny am ei ymroddiad, ei ymrwymiad a'i agwedd gadarnhaol at waith yn ystod ei gyfnod gyda'r Cyngor. Croesawodd yr Arweinydd hefyd Mr Paul Mee yn Brif

Weithredwr newydd.

Cyhoeddodd y Cynghorydd S Bradwick fod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Gareth Jones wedi'i benodi'n Is-Gadeirydd y Gynghrair a dymunodd yn dda iddo yn ei rôl newydd.

Talodd y Cynghorydd S Bradwick deyrnged hefyd i un o'i drigolion, Mr Roger Davies, sydd wedi bod yn codi sbwriel yn Eglwys Sant Ioan ers dros 30 mlynedd a dim ond nawr, oherwydd afiechyd, y mae'n rhoi'r gorau i hyn. Gofynnodd y Cynghorydd Bradwick a fyddai modd anfon llythyr oddi wrth y Maer at Mr Davies i anrhydeddu ei waith caled a'i ymrwymiad i'r gymuned.

Aeth y Llywydd ati i gynnal munud o dawelwch yn y cyfarfod er cof am y 116 o blant a 28 o oedolion a fu farw yn nhrychineb Aber-fan 56 mlynedd yn ôl. Arweiniodd Arweinydd y Cyngor y teyrngedau i'r rheiny a fu farw, a nododd Dirprwy Arweinydd yr wrthblaid ac Arweinwyr y Grwpiau eraill eu cydymdeimlad hefyd i nodi'r pen-blwydd.

**38 Datganiadau**

- Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd ddatganiad mewn perthynas â llwyddiant a chydnabyddiaeth i Gyngor Rhondda Cynon Taf wrth gadw ei wobr 'Cyflogwr Aur' Cyfamod y Lluoedd Arfog, a hynny am ei gefnogaeth barhaus i gymuned y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'i hail-ddilysu wrth i'r awdurdod lleol barhau i annog cyflogwyr a gweithwyr i gefnogi'r Lluoedd Arfog a'u cymuned ac ysbrydoli eraill i wneud yr un peth. Roedd hi wedi cydnabod gwaith Jamie Island, Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog, sydd hefyd yn gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill.

- Gwnaeth yr Arweinydd ddatganiad mewn perthynas â sefyllfa ariannol y Cyngor a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar gyfer y flwyddyn yma a'r flwyddyn nesaf. Cyfeiriodd at gyfarfod a gynhaliodd yn gynharach gydag Arweinwyr y Grwpiau, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Dirprwy Arweinydd i drafod gwybodaeth yr oedd yn bwriadu ei rhannu â'r holl Aelodau heddiw. Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddar i'r Cyngor Llawn, dywedodd fod yr awdurdod lleol yn wynebu gorwariant posibl o £21 miliwn eleni oherwydd pwysau cyflogau, dyfarniadau cyflog, pwysau chwyddiant a'r cynnydd o ran costau ynni. Mae hyn yn unol ag awdurdodau lleol eraill o faint tebyg. Gallai llywodraeth leol yng Nghymru wynebu gorwariant o £257 miliwn.

  Dywedodd yr Arweinydd y gallai'r flwyddyn nesaf fod yn gyfnod anodd iawn i'r awdurdod lleol a'i bod yn debygol y byddai'r diffyg ariannol o £36 miliwn a amlinellwyd yn adroddiad y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Cyngor Llawn rhwng £45 miliwn a £47 miliwn. Dyma ffigwr digynsail, hyd yn oed o'i gymharu â'r blynyddoedd o galedi a brofwyd yn flaenorol. Roedd yr Arweinydd yn ofni y byddai'r cynllun cyllidol tymor canolig i'w gyhoeddi ar 31 Hydref yn golygu toriadau o ran gwariant ac y byddai'r Grant Cynnal Refeniw, a ystyriwyd yn wreiddiol yn seiliedig ar y setliad dros dro i lywodraeth leol, yn debygol o ostwng. Bydd gostyngiad o 2% yn y Grant Cynnal Refeniw (codiad o 1½%) yn ychwanegu tua £9 miliwn at y diffyg ariannol.

Dywedodd yr Arweinydd fod tua 80% o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar staff, ac felly mae'n anochel y byddai raid gostwng lefelau staffio ym mhob rhan o'r awdurdod lleol. Ychwanegodd fod gyda'r Cyngor berthynas waith dda â'r undebau llafur sy'n rhan o drafodaethau ynglŷn ag unrhyw newidiadau i wasanaethau. Dywedodd y byddai cyfarfodydd gyda chynrychiolydd y gangen leol yn cael eu cynnal i drafod y sefyllfa bresennol. Dywedodd yr Arweinydd nad yw'r sefyllfa yma'n unigryw i Gyngor RhCT nac i awdurdodau lleol eraill gan y bydd cyrff cyhoeddus eraill hefyd yn wynebu'r un anawsterau a phwysau.

Aeth yr Arweinydd ati i atgoffa'r Cyngor fod cyfrifoldeb statudol arno i osod cyllideb gytbwys yn gyfreithiol, ac mewn cytundeb â'i Gabinet, y bwriad yw parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd â grwpiau trawsbleidiol, y Cabinet a'r Cyngor Llawn.

I gloi, priodolodd yr Arweinydd yr heriau diweddar i lywodraeth y DU, gan ddweud bod y troeon pedol parhaus o ran torri trethi a'r ymddiswyddiadau diweddar i gyd wedi ychwanegu at yr anhrefn. Ychwanegodd y bydd raid dod i benderfyniadau anodd dros y misoedd nesaf, ond rhoddodd sicrwydd y bydd yr ymrwymiadau i'r cyhoedd a'r addewidion hynny sydd wedi'u nodi ym maniffesto Grŵp y Blaid Lafur yn cael eu cyflawni (ac mae gwaith da eisoes wedi bod ar waith) i wella bywydau trigolion lleol.

## 39 Cwestiynau gan yr Aelodau

**1) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Parkin i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

*"A all Arweinydd y Cyngor rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â ni am roi'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar waith yn y sector gofal cymdeithasol yn RhCT?"*

**Ymateb Arweinydd y Cyngor, A Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd fod y broses o gytuno ar brisiau contractau ym maes contractau gofal cymdeithasol Gwasanaethau i Oedolion yn mynd rhagddi'n dda. Mae cyfraddau wedi'u hadolygu a'u cynyddu ar gyfer darparwyr annibynnol i'w galluogi i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i staff a chyfradd RhCT o £10 yr awr fel y cytunwyd arni gan y Cabinet.

Ychwanegodd yr Arweinydd mai dim ond pum darparwr allanol o'r 40 darparwr sy'n gweithredu yn RhCT sy'n talu'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol o £9.90, yn hytrach na'r ymrwymiad y mae'r Cyngor wedi gofyn amdano, sef £10 yr awr. Ar y cyfan, mae'r darparwyr yma'n sefydliadau cenedlaethol lle caiff strwythurau cyflogau mewnol eu pennu. Mae'r Cyngor yn trafod â nhw ac mae o'r farn y dylai'r holl ddarparwyr allanol dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Mewn perthynas â'r Gwasanaethau i Blant, dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn ymgysylltu â darparwyr gofal preswyl allanol ar hyn o bryd i asesu effaith costau gwasanaethau a'r wybodaeth gyfredol am gyflogau a graddfeydd. Pwysleisiodd fod unrhyw un sy'n gweithio yn yr awdurdod lleol eisoes yn derbyn

y Cyflog Byw Gwirioneddol, ynghyd â 10c yr awr yn fwy, sy'n cyfateb i hanner miliwn o bunnoedd yn ychwanegol. Dydy'r Cyngor ddim wedi'i achredu'n gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol eto, er bod camau ar waith i gyflawni'r achrediad yma yn y dyfodol.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**2) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol V Dunn i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

*"Mae llywodraeth y DU yn parhau i ddarparu'r cymorth lleiaf posibl wrth i filiynau ddechrau teimlo gwir effeithiau'r argyfwng costau byw. Mae'r rhagolygon yn nodi cynnydd pellach o ran costau ynni ar gyfer yr hydref. A all yr Arweinydd amlinellu pa drafodaethau sy'n cael eu cynnal neu ba fesurau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i helpu i ddiogelu trigolion?"*

**Ymateb Arweinydd y Cyngor, A Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, er iddo gyfeirio at yr angen i lywodraeth y DU ddarparu ymyriadau ariannol angenrheidiol. Roedd hefyd yn falch o glywed bod y clo triphlyg ar bensiynau wedi'i gadarnhau yn ddiweddar.

Mynegodd yr Arweinydd ei bryder am deuluoedd ar Gredyd Cynhwysol. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi cyhoeddi cynllun cymorth â chostau byw atodol lleol gwerth £2.89 miliwn yn ddiweddar i roi cymorth pellach i deuluoedd a thrigolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan yr argyfwng. Amlinellodd yr Arweinydd 4 maes cymorth penodol, megis taliad o £75 i deuluoedd ag un plentyn neu fwy o oedran ysgol gorfodol (fesul teulu), pecyn cymorth gwerth £50,000 wedi'i ddarparu i fanciau bwyd lleol ac ar gyfer cynlluniau cymorth bwyd, taliad o £125 i gefnogi staff y Cyngor ar gyflogau is, megis casglwyr sbwriel a chogyddion mewn ysgolion, a chronfa ddewisol gwerth £250,000 i drigolion sy'n profi caledi ariannol eithafol o ganlyniad uniongyrchol i'r argyfwng costau byw.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o gronfeydd a mesurau cymorth yn ddiweddar, a bydd cyllid yn dod i law'r awdurdod lleol maes o law. Bydd mesurau pellach yn cael eu cyhoeddi dros yr wythnosau nesaf. Ychwanegodd fod nifer o gamau bach y gall y Cyngor eu cymryd, megis darparu teclynnau gwefru ffonau symudol mewn llyfrgelloedd i helpu trigolion.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**3) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L A Tomkinson i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol B Harris:**

*"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ar waith y Cyngor gyda sefydliadau gwirfoddol a'r trydydd sector yn Rhondda Cynon Taf, os gwelwch yn dda?"*

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol B Harris:**

Ymatebodd y Cynghorydd Harris fod Adran y Celfyddydau, Diwylliant a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cynnwys Theatrau RhCT, Llyfrgelloedd, Cymorth IBobUn, Canolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg a Charfan Datblygu'r Gymuned, ynghyd â Chanolfannau Cydnerthedd y Gymuned.

Ychwanegodd y Cynghorydd Harris fod yr Adran yn gwneud llawer o waith ar y cyd â sefydliadau'r sectorau gwirfoddol a thrydydd parti, gan gynnwys:

- Sefydlu Grŵp Llywio Cymorth Cymunedol – cyfarfod i bartneriaid ar gyfer grwpiau gwirfoddol a'r trydydd sector, gan gynnwys Interlink, Cyngor Gwirfoddol y Sir, a ddatblygodd o ganlyniad i bandemig COVID-19 i sicrhau ymgysylltiad parhaus, ac er mwyn canolbwyntio'n ehangach ar yr holl faterion sy'n ymwneud â chymorth i drigolion

- Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned a Rhwydweithiau Cymdogaeth – sy'n dod ag ystod o wasanaethau ynghyd, gan gynnwys y rheiny a gaiff eu darparu gan y sector cyhoeddus, sefydliadau preifat a gwirfoddol, a grwpiau cymunedol. Mae Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned yn cefnogi'r 7 rhwydwaith cymdogaeth i ddylanwadu'n weithredol ar ddatblygiadau a chefnogi cymunedau a thrigolion

- Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol – sy'n rhoi cymorth i grwpiau a sefydliadau lleol trwy'r broses o gymryd cyfrifoldeb dros reoli adeiladau neu dir y Cyngor

- Darpariaeth y gronfa Rhwydweithiau Cymdogaeth a chymorth ariannol arall, gan gynnwys y gronfa Cymorth Bwyd, grant O Blaid Pobl Hŷn, grant Urddas Mislif, a'r Gronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol

- Cydlynu cymorth i drigolion: Rhif ffôn canolog, e-ffurflen, ceisiadau wedi'u trosglwyddo i Gydlynwyr Cymunedol sy'n cyfeirio at y gwasanaeth/partner perthnasol am gymorth, gan gynnwys y sector gwirfoddol a'r trydydd sector

- Cymorth i grwpiau cymunedol gynnal ymgynghoriadau. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys helpu Grŵp Gweithredu Parc Gwledig Cwm Clydach i lunio arolwg ar-lein

- Cydlynu partneriaethau newid yn yr hinsawdd a bwyd, a phartneriaethau cymorth i bobl hŷn

- Gweithio ar y cyd â sefydliadau'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector i gyflwyno rhaglen o achlysuron, gweithgareddau a chyrsiau yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg

- Cymorth gan sefydliadau'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector ar y cyd â RhCT i wella sgiliau staff a datblygu rhaglenni, megis darparu cyfleusterau mewn Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned, llyfrgelloedd, theatrau a Chanolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg er mwyn i grwpiau'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector gwrdd a rhannu eu gwaith

- Mae'r llyfrgelloedd yn gweithio'n rheolaidd ar y cyd â sefydliadau'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector i ddarparu mynediad yn rhad ac am ddim i

fannau cymunedol i ddatblygu a darparu gwasanaethau i gymunedau lleol

- Mae'r llyfrgelloedd yn creu partneriaethau ar y cyd â sefydliadau'r trydydd sector, megis The Reading Agency a Booktrust Cymru i gyflwyno rhaglenni llythrennedd cenedlaethol megis Sialens Ddarllen yr Haf, sy'n allweddol i ddatblygu sgiliau darllen pobl ifainc

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**4) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Evans i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

*"A all Arweinydd y Cyngor rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ba gynlluniau lliniaru llifogydd y mae disgwyl eu cyflawni eleni?"*

**Ymateb Arweinydd y Cyngor, A Morgan:**

Dywedodd yr Arweinydd fod rhaglen bresennol Rheoli Perygl Llifogydd 2022/23 yn cynnwys 64 o brosiectau a chamau o brosiectau sylweddol. Yn ôl y cyfrifon ar hyn o bryd, mae disgwyl buddsoddiad gwerth tua £5 miliwn ar gyfer 2022/23.

Ychwanegodd fod dros 12 o brosiectau Rheoli Perygl Llifogydd sylweddol wedi'u hamserlennu dros nifer o flynyddoedd. Maen nhw'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ac o ran eu hariannu, maen nhw yng nghamau achos busnes y broses. O ran cynlluniau gwaith a gwblhawyd eleni, amlinellodd yr Arweinydd y canlynol: cynllun lliniaru llifogydd Treorci – Rhan 1 – atgyweirio cwlfertau, ailadeiladu cilfach a gwaith trwsio sgwrio (£600,000), a chynllun lliniaru llifogydd Teras Bronallt Uchaf – gwanhau'r llif a rheoli'r basn storio a malurion – (£720,000). Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar uwchraddio gorsaf bwmpio Glen-bói. Mae disgwyl ei gwblhau ym mis Mai 2023 (£1.4 miliwn).

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod 7 cynllun gwaith graddfa fach Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)/Llywodraeth Cymru (LlC) gwerth £1 miliwn, a chyllid gwerth £440,000 o'r Gronfa Ffyrdd Cydnerth wedi'u sicrhau (cynlluniau draenio'r ffyrdd yw'r rhain yn bennaf), yn ogystal â 5 cynllun graddfa fach cyllid craidd gan CNC/RhCT gwerth £300,000.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y bartneriaeth waith agos barhaus rhwng yr awdurdod lleol, LlC, CNC a Dŵr Cymru. Maen nhw'n cwrdd yn rheolaidd i drafod cynlluniau cyfredol a chynlluniau'r dyfodol, gan ddefnyddio dull ar y cyd.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**5) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

*"A all yr aelod priodol o'r Cabinet roi gwybod i'r Cyngor a oes unrhyw gynlluniau i greu cymunedau hygyrch i bawb drwy weithredu rhaglen i osod cyrbau isel? Ar hyn o bryd mae'n anodd iawn i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd deithio o un lle i'r llall yn ddiogel mewn nifer fawr o'n pentrefi, gan gynnwys fy ward yn Nhonyrefail".*

**Ymateb Arweinydd y Cyngor, A Morgan:**

Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod y Cyngor wedi ymrwymo i wneud y priffyrdd yn fwy hygyrch i bob defnyddiwr. Ynghyd â gwelliannau sy'n rhan o gynlluniau cynnal a chadw ehangach, yn y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf mae dros £300,000 wedi'i fuddsoddi mewn cynlluniau penodol i wella mynediad.

Ychwanegodd yr Arweinydd, er ei bod yn flaenoriaeth uchel, mae maint y dasg yn enfawr. Mae miloedd o gyffyrdd ledled y fwrdeistref sirol angen gwelliannau, ac felly mae'r gwelliannau hynny wedi'u targedu at y llwybrau prysuraf neu'r rhai sy'n darparu'r budd cymunedol mwyaf er mwyn helpu'r nifer fwyaf o bobl.

Dywedodd yr Arweinydd fod £45,000 yn cael ei gynnwys yn y rhaglen gyfalaf graidd bob blwyddyn i wella'r rhaglen briffyrdd (i gynnwys cyrbau isel).

Dywedodd yr Arweinydd fod cynlluniau gwella mynediad penodol wedi'u cynnal yn y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf ym Mlaenllechau, Beddau, y Gilfach-goch, y Ddraenen-wen, Brynna a'r Groes-faen, gyda chynlluniau pellach wedi'u hamserlennu yn Ynys-wen, Pentre'r Eglwys, Llanilltud Faerdref a Blaenrhondda. Yn ogystal â hyn, ychwanegodd y Cynghorydd Morgan fod gwelliannau lleol hefyd yn cael eu cynnal ar y cyd â Chynghorau Cymuned a LIC, neu drwy gyllid arall i gyflawni'r gwelliannau yma.

**Cwestiwn Ategol:**

"Gan fod Cyngor Cymuned Tonyrefail wedi datblygu rhaglen waith ar gyfer cyrbau isel, a fydd y Cyngor yn fodlon gweithio ar y cyd ag ef?"

**Ymateb Arweinydd y Cyngor, A Morgan:**

Ymatebodd yr Arweinydd y byddai'r Cyngor yn gwneud hyn. Roedd yn gwybod bod y Cynghorydd Grehan a'i gyd-Aelod yn ward Tonyrefail wedi cael trafodaethau â swyddogion mewn perthynas â'r ardal, a bod cynllun posibl a allai ymgorffori gweithio ar y cyd â'r Cyngor Cymuned yn cael ei drafod mewn perthynas â buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Hughes i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

*"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet wneud datganiad ynghylch buddsoddiad y Cyngor mewn cyfleusterau hamdden awyr agored?"*

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod y Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol i wella cyfleusterau hamdden awyr agored dros y blynyddoedd diwethaf. Yr enghreifftiau mwyaf amlwg yw sicrhau bod gyda thrigolion Rhondda Cynon Taf fynediad at y cyfleusterau athletau yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Beddau, Stadiwm Ron Jones yn Aberdâr, a chaeau chwarae Brenin Siôr V yn Nhonypandy/Cwm Clydach gerllaw. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi darparu rhaglen dosbarthiadau ffitrwydd awyr agored mewn nifer o'i gyfleusterau hamdden. Roedd y rhain yn gweithredu am nifer o flynyddoedd cyn y pandemig. Cawson nhw groeso cynnes pan roedd modd eu hailddechrau ar ôl y cyfnodau cloi amrywiol.

Ychwanegodd y Cynghorydd Crimmings fod y Cyngor wedi defnyddio cyllid gan Chwaraeon Cymru yn ddiweddar i brynu dau rig ymarfer awyr agored symudol. Ar hyn o bryd maen nhw ym Mharc Coffa Ynysangharad a Pharc Gwledig Cwm Dâr. Eleni, mae'r Cyngor eisoes wedi darparu dau drac beiciau cydbwysedd awyr agored yn Abercynon a Pharc Gwledig Cwm Dâr. Bydd un arall yn cael ei ddarparu yn Wattstown, ynghyd ag Ardal Gemau Aml-ddefnydd newydd. Mae'r Cyngor yn ceisio cael cyllid ychwanegol i ehangu'r opsiynau rigiau awyr agored a thraciau beiciau cydbwysedd ychwanegol, ond bydd hyn yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael a cheisiadau grantiau.

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod Strategaeth Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol newydd 2022 i 2027 wedi'i gosod ger bron y Cabinet ar 17 Hydref, i'w hystyried a'i mabwysiadu'n ffurfiol. Bydd yn llywio gwaith arwain a rheoli'r gwasanaeth, gan sicrhau'r canlynol: gall barhau i ddarparu ystod amrywiol o gyfleoedd chwaraeon a hamdden, bod modd cynnal cyfleusterau dan do ac awyr agored o ansawdd da, gall y Cyngor ymateb yn gadarnhaol i amgylchiadau masnach heriol sy'n newid yn gyflym, yn ogystal â pharhau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid a thrigolion RhCT.

I gloi, ychwanegodd y Cynghorydd Crimmings fod y strategaeth newydd yn nodi 8 maes allweddol i ganolbwyntio arnyn nhw yn y 5 mlynedd nesaf. Bydd y rhain yn cyfrannu'n gadarnhaol at y blaenoriaethau corfforaethol 'Pobl' a 'Lleoedd', er enghraifft, sicrhau bod modd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ffordd hygyrch, a'i fod yn gynhwysol. Caiff hyn ei gyflawni trwy gynnal darpariaeth cost isel sydd â gwerth uchel a rhoi mynediad i drigolion at wybodaeth a gweithgareddau iechyd a lles trwy gynlluniau atgyfeirio meddygon teulu, a rhaglenni ymyrraeth iechyd a lles eraill.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

## 40 Rhaglen Waith y Cyngor 2022/23 - er gwybodaeth i Aelodau

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Raglen Waith y Cyngor ar gyfer 2022/23, gan ddweud y byddai adroddiad Cyflawniad Corfforaethol drafft 2022/23 yn cael ei rannu â'r Cyngor Llawn yn y flwyddyn newydd. Dywedodd hefyd y mae'n bosibl y bydd angen gofyn am gyfarfod arbennig o'r Cyngor ym mis Rhagfyr unwaith y bydd manylion y setliad llywodraeth leol yn hysbys, fel yr amlinellwyd yn flaenorol gan Arweinydd y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai cyfarfod arbennig o'r Cyngor am 3.30pm y mis nesaf lle bydd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn bresennol. I gloi, adroddwyd bod angen yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Arolwg Ffiniau Cymru erbyn 15 Tachwedd. Oherwydd hyn felly, bydd ymateb terfynol y Cyngor yn cael ei lunio yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae gwahoddiad i holl Aelodau'r Cyngor fod yn bresennol.

## 41 Gostyngiadau Treth y Cyngor

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol ei adroddiad mewn perthynas â gostyngiadau Treth y Cyngor – Dosbarth Penodedig o Anheddau. Dywedodd fod yr adroddiad yn bodloni'r gofyniad i'r Cyngor gadarnhau'n flynyddol y defnydd o ostyngiadau ar gyfer dosbarthiadau o anheddau, sef ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Dywedodd y Cyfarwyddwr nad yw'r Cyngor ar

hyn o bryd yn dyfarnu gostyngiadau i swm llawn Treth y Cyngor sy'n daladwy mewn perthynas ag ail gartrefi. Nid yw ychwaith yn dyfarnu unrhyw ostyngiad mewn perthynas ag eiddo gwag y tu hwnt i'r cyfnod eithrio statudol, sef 6 mis.

Cynigiodd y Cyfarwyddwr bod y Cyngor yn parhau â'r trefniadau presennol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022 i 2023.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** cytuno i barhau â pheidio â rhoi unrhyw ostyngiad Treth y Cyngor mewn perthynas ag eiddo Dosbarth A, B ac C.

**42 Penderfyniadau Gweithredol Brys**

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2(a), cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu drosolwg o'r Penderfyniadau Brys a gyflwynwyd gan Bwyllgor y Cabinet a Phenderfyniadau Dirprwyedig Swyddog Allweddol Brys a gyflwynwyd y tu allan i Bwyllgor y Cabinet yn ystod y cyfnod Mehefin – Medi 2022.

**PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**43 Newid Aelodaeth Pwyllgorau**

**Newid Aelodaeth Pwyllgorau**

Cytunwyd i ystyried yr adroddiadau aelodaeth wedi'u nodi yn eitem 8 ar yr agenda a'r adroddiad brys wedi'i nodi yn eitem 11 ar yr agenda ar y pwynt yma. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod am y newidiadau i gynrychiolaeth y Grŵp Llafur ar Bwyllgor y Gronfa Bensiwn a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan ofyn am enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022 i 2023. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd am y newid i gynrychiolaeth Grŵp Plaid Cymru ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi y bydd:

1. Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Gareth Jones yn cael ei enwebu yn lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Evans ar Bwyllgor y Gronfa Bensiwn

2. Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Martin Ashford yn cael ei enwebu yn lle cyn-Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Marcia Rees-Jones ar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

3. Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher yn cael ei phenodi'n Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022 i 2023

4. Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Paula Evans yn cael ei henwebu i'w phenodi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a bydd

5. Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Paula Evans yn cael ei henwebu i'w phenodi i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**44 Pwyllgor Safonau – Penodi Aelodau Annibynnol ac Aelodau o'r Cyngor Cymuned**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ei adroddiad mewn perthynas â deilliannau'r broses a gynhaliwyd i lenwi lleoedd gwag ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor, yn benodol Aelod Annibynnol (lleyg) ac aelod sy'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned (ynghyd ag Aelod wrth gefn).

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Panel Penodiadau wedi cwrdd ar 30 Medi 2022 i gyfweld ar gyfer penodi Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o chwe blynedd ac Aelod o'r Cyngor Cymuned (ac Aelod wrth gefn hefyd) am dymor tan yr etholiadau cyffredin nesaf (yn 2027).

Yn dilyn cadarnhad gan Gadeirydd y Panel Penodiadau, **PENDERFYNWYD** :

1. Cymeradwyo argymhelliad y Panel Penodiadau i benodi Mrs Helen John yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o chwe blynedd gan gychwyn ar 20 Hydref 2022.

2. Cymeradwyo argymhelliad y Panel Penodiadau i benodi'r Cynghorydd Cymuned Lynwen Law (Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn) yn Aelod Cyngor Cymuned o'r Pwyllgor Safonau am dymor tan yr etholiadau llywodraeth leol arferol nesaf.

3. Cymeradwyo argymhelliad y Panel Penodiadau i benodi’r Cynghorydd Cymuned Carl Thomas (Cyngor Tref Pontypridd) yn Aelod Cyngor Cymuned wrth gefn o’r Pwyllgor Safonau am dymor tan yr etholiadau llywodraeth leol arferol nesaf.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.05 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**